Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 8 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(153)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Y cynnydd a wnaed o ran datblygu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-20 (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cyllideb Ddrafft 2014-15 (30 munud)**

**5 Dadl ar Dalu Costau Tai yn Uniongyrchol i Denantiaid yng Nghymru (60 munud)**

NDM5315 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU yn parhau â'i chynlluniau i gyflwyno taliadau uniongyrchol;

2. Yn galw eto ar Lywodraeth y DU i newid ei pholisi ar daliadau uniongyrchol er mwyn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn debygol o gael effaith negyddol ar nifer o

denantiaid, a hefyd beri risg i hyfywedd ariannol cymdeithasau tai;

3. Yn canmol y gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau tai a sefydliadau eraill i helpu pobl i ymdopi â'r newidiadau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'â'i chynlluniau' a rhoi yn ei le:

'i safoni taliadau uniongyrchol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU'

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'sy'n cynnig y potensial i rymuso pobl drwy roi rhagor o reolaeth iddynt dros eu harian, a chynnig llwybr cliriach i waith ac annibyniaeth.'

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r 'Universal Credit Local Support Services Framework', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ac a luniwyd ar y cyd ag asiantaethau, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n rhestru'r cymorth sydd ar gael i hawlwyr y mae angen talu costau tai yn uniongyrchol i landlordiaid.

Gellir gweld yr Universal Credit Local Support Services Framework drwy fynd i:

[https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-local-support-services-framework](https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-local-support-services-framework)

*[Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i edrych yn ofalus ar holl ganfyddiadau'r Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol a fydd yn dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2013.

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y gallai taliadau uniongyrchol arwain at fwy o achosion o droi allan, gan arwain at gostau ychwanegol ar gyfer troi allan ac ailgartrefu unigolion, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i roi'r arferion gorau ar waith er mwyn osgoi achosion o droi allan.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol, undebau credyd a chymdeithasau tai er mwyn ystyried y ffyrdd gorau o sicrhau bod cynnyrch ariannol gyda nodweddion cyllidebu parod ar gael yn fwy eang, ac i hyrwyddo defnyddio gwasanaethau cyngor ariannol ymysg tenantiaid, er mwyn helpu'r rheini y mae taliadau uniongyrchol yn cael effaith arnynt.

## 6 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (60 munud)

**NDM5316 Gwenda Thomas (Castell-nedd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Gosodwyd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 28 Ionawr 2013;

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 18 Gorffennaf 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd gwasnaeth eiriolaeth unigol o ran sicrhau bod buddiannau gorau pobl sy'n dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol yn cael eu diogelu.

**Dogfennau Ategol**

Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 7 Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (5 munud)

NDM5317 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

### 8 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (60 munud)

NDM5318 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru).

Gosodwyd Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 30 Medi 2013.

Dogfennau Ategol
Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol

### 9 Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (5 munud)

NDM5319 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

### Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 9 Hydref 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Hydref 2013 i'w hateb ar 8 Hydref 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad economaidd menywod yng Nghymru? OAQ(4)1250(FM)

2. Eluned Parrott (Canol De Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y teithwyr ar reilffyrdd ledled Cymru? OAQ(4)1259(FM)

3. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1251(FM)

4. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut mae polisïau Llywodraeth Cymru yn gwella lles ariannol trigolion Canol De Cymru? OAQ(4)1256(FM)

5. Leighton Andrews (Rhondda): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru? OAQ(4)1242(FM)

6. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r stigma a gaiff ei roi ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl? OAQ(4)1245(FM)

7. Russell George (Sir Drefaldwyn): Pa asesiadau effaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal o'r modd y mae datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir yn effeithio ar gymunedau lleol yng Nghymru? OAQ(4)1257(FM)

8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynlluniau i wella'r seilwaith cenedlaethol? OAQ(4)1252(FM)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i hybu twristiaeth yn Ynys Môn? OAQ(4)1254(FM)W

**10. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu economi etholaeth Llanelli? OAQ(4)1258(FM)

**11. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn y drefn gynllunio yng Nghymru? OAQ(4)1248(FM)W

**12. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad diweddar y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd? OAQ(4)1246(FM)W

**13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau orthodontig yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1241(FM)

**14. Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch cleifion yng Nghymru? OAQ(4)1249(FM)

**15. Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Strategaeth Hedfan Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1255(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 15 Hydref a dydd Mercher 16 Hydref 2013

Dydd Mawrth 22 Hydref a dydd Mercher 23 Hydref 2013

Toriad: Dydd Llun 28 Hydref 2013 - Dydd Sul 3 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 5 Tachwedd a dydd Mercher 6 Tachwedd 2013

*********************************************************************

Dydd Mawrth 15 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cyflwyno'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Llwyddiant Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i Gyllido a Hwyluso'r Gwaith o Gyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Bysiau Arriva Cymru (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: "Gweithio gyda'n gilydd i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru - Adolygiad Cymru 2012-13" (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-13 (60 munud)

Dydd Mercher 16 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi aelodau a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)
- Cynnig i gytuno ar daliadau aelodau a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio RhS18 mewn cysylltiad â Chyfrifon Cyhoeddus ac arolygiaeth Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.3 i addasu cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
  NNDM5325
  Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)
  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
  1. Yn cydnabod risg uchel llusernau awyr i ddiogelwch y cyhoedd, i adeiladau a strwythurau, ac i les anifeiliaid fferm a bywyd gwyllt;
  2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i rinweddau cyfyngu ar ryddhau llusernau awyr yng Nghymru.
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ymchwiliad i weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes yng Nghymru a'i gyfeiriad yn y dyfodol (60 munud)
- Dadl i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Llythrennedd Ariannol (Bethan Jenkins) (60 munud)
- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)

**Dydd Mawrth 22 Hydref 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: System Drafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru (30 munud) - wedi'i symud o 15 Hydref
- Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2012-2013 (60 munud)

Dydd Mercher 23 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar yr Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru (60 mins)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cynnydd o ran Troi tai'n Gartrefi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: 'Teithio at Ddyfodol Gwell' - Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Creu Cymwysterau Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y cyfleoedd a'r heriau y mae'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru yn eu hwynebu (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)
- Dadl: Cymorth i'r Lluoedd Arfog yng Nghymru (60 munud)

Dydd Mercher 6 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth
- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Reoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)